**Cyngor Tref Llangollen Town Council**

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2024.

Minutes of the Council Meeting held on16 April 2024.

| | | |
|---|---|---|
| | **Yn bresennol:**<br>Y Cyng Edwards, Felton, Haddy, Hyde, Richards-Gwilliam, Morris a Susanthan.<br>**Mynychu**:<br>G. Thomas (Clerc y Dref).<br>11 aelod o'r cyhoedd. | **Present:**<br>Cllrs Edwards. Felton, Haddy, Hyde, Richards-Gwilliam, Morris and Susanthan.<br>**In attendance:**<br>G. Thomas (Town Clerk).<br>11 members of the public. |
| | **Datganiadau gan y cyhoedd.**<br>Siaradodd sawl Aelod o'r cyhoedd yn helaeth ar gynigion y Cyngor Sir i gau'r toiledau cyhoeddus yn Llangollen. Gofynnodd unigolion am gefnogaeth y Cyngor y Dref i lobïo Cyngor Sir Ddinbych er mwyn atal y cau. Nododd y Dirprwy Faer deimladau'r unigolion a siaradodd ar y mater hwn. Sicrhaodd hwy fod Cyngor y Dref yr un mor bryderus ac y byddai'n cynnal trafodaeth frys o'r mater gyda'r Cyngor Sir. | **Statements from the public.**<br>Several Members of the public spoke at length on the County Council's proposals to close the public toilets in Llangollen. Individuals asked for the Town Council's support to lobby Denbighshire County Council to prevent the closures. The Deputy Mayor noted the sentiments of the individuals who spoke on this matter and assured them that the Town Council were as equally concerned and would be opening a dialogue with the County Council as a matter of urgency. |
| | **Datganiadau gan Gynghorwyr y Sir.**<br>Adroddodd y Cynghorydd Sir Edwards ar faterion y Cyngor Sir yn ymwneud â Llangollen, yn cynnwys y bwriad i gau'r toiledau cyhoeddus yn Llangollen a chynnydd ar Brosiect y Pedair Priffordd Fawr. | **Statements from County Councillors.**<br>County Councillor Edwards reported on County Council matters relating to Llangollen which included the proposed closure of the public toilets in Llangollen and progress on the Four Great Highways Project. |
| **C/99/24.** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn ymddiheuriadau gan y Cyng Keddie oherwydd cyfrifoldebau gofalu a'r Cyng Heath oherwydd ymrwymiadau gwaith.<br>Cytunodd pawb.<br>Yn absenoldeb Maer y Dref, y Dirprwy Faer wnaeth gadeirio'r cyfarfod. | **Apologies for Absence.**<br>It was proposed seconded and resolved to accept apologises from Cllr Keddie caring responsibilities and Cllr Heath work commitments.<br>All agreed.<br>In the absence of the Town Mayor, the Deputy Mayor chaired the meeting. |
| **C/100/24.** | **Datganiad o Fuddiant.**<br>Dim. | **Declaration of Interest.**<br>None |
| **C/101/24.** | **Cofnodion.** | **Minutes.** |

| | |
|---|---|
| Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo cofnodion cyfarfodydd arferol blaenorol Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 19.03.24 fel cofnod cywir. Cytunodd pawb. | It was proposed, seconded, and resolved that the Chair be authorised to sign the minutes of the previous ordinary meetings of the Town Council held on 19.03.24, as a correct record. All agreed. |

**C/102/24 Adroddiadau Ariannol.** — **Financial Reports.**

**a)** Datganiadau Ariannol. — Financial Statements.

| | |
|---|---|
| Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd derbyn a nodi'r datganiadau ariannol ar gyfer mis Ebrill. | It was proposed, seconded, and resolved that the financial statement for April be received and noted. |

**b)** Taliadau Awdurdodedig. — Authorised Payments.

| | |
|---|---|
| Cyflwynwyd y taliadau ar gyfer mis Ebrill (a fanylir isod) i'r cyfarfod. | The payments for April (detailed below) were presented to the meeting. |

| Taleb/Voucher | Cyflenwr/Supplier | Net | TAW/VAT | Gros/Gross |
|---|---|---:|---:|---:|
| 1 | Ultra Clean | £147.74 | £29.55 | £177.29 |
| 2 | ACS Technology | £190.30 | £0.00 | £190.30 |
| 3 | British Telecom | £46.95 | £9.39 | £56.34 |
| 4 | Barclaycard | £119.36 | £0.00 | £119.36 |
| 5 | Grenke Leasing Limited | £204.00 | £40.80 | £244.80 |
| 6 | One Voice Wales | £805.00 | £0.00 | £805.00 |
| 7 | Rawsons Digital | £25.12 | £5.03 | £30.15 |
| 8 | CSD/DCC | £1,234.22 | £0.00 | £1,234.22 |
| 9 | Nest | £283.07 | £0.00 | £283.07 |
| 10 | HMRC | £888.23 | £0.00 | £888.23 |
| 11 | Staff costs | £2,211.11 | £0.00 | £2,211.11 |
| 12 | Staff costs | £1,062.33 | £0.00 | £1,062.33 |
| 13 | Good Energy | £48.02 | £2.40 | £50.42 |
| 14 | Good Energy | £317.71 | £15.89 | £333.60 |
| 15 | Good Energy | £32.68 | £1.63 | £34.31 |
| 16 | Good Energy | £135.32 | £6.77 | £142.09 |
| 17 | Good Energy | £463.13 | £23.16 | £486.29 |
| 18 | B Jones | £61.39 | £0.00 | £61.39 |
| 19 | Ultra Clean | £147.74 | £0.00 | £147.74 |
| 20 | Smiths of Derby | £670.83 | £134.17 | £805.00 |
| 21 | Gresford Floorcare | £1.350.00 | £0.00 | £1,350.00 |
| 22 | British Telecom | £54.56 | £10.91 | £65.47 |

| | |
|---|---|
| Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd cymeradwyo'r taliadau. Cytunodd pawb. | It was proposed, seconded, and resolved that the payments be approved. All agreed. |

**e)** Cysoniad banc. — Bank reconciliation.

| | |
|---|---|
| Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd derbyn a nodi'r cysoniad banc ar gyfer | It was proposed, seconded, and resolved to receive and note the bank reconciliation for |

| | | |
|---|---|---|
| | mis Ebrill.<br>Cytunodd pawb. | April.<br>All agreed. |
| **C/103/24** | **Adroddiadau Clerc y Dref.**<br>**Toiledau Cyhoeddus, Llangollen.**<br>Cynigwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd awdurdodi Clerc y Dref i gysylltu â Phrif Reolwr Arlwyo a Glanhau'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater hwn. | **Town Clerk's Reports.**<br>**Public Conveniences, Llangollen.**<br>It was proposed, seconded, and resolved to authorises the Town Clerk to contact the County Council's Principal Catering and Cleaning Manager on this matter. |
| **C/104/24** | **Ceisiadau Cynllunio.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd peidio â chodi unrhyw wrthwynebiad ynglŷn â'r cais canlynol.<br>Cytunodd pawb.<br>03/2024/0010<br>Codi estyniad un llawr i'r annedd, garej ddwbl ar wahân, ffurfio llawr caled, tirlunio a gwaith cysylltiedig. River Meadow Cottage, Llangollen Fechan.<br><br>03/2024/0069<br>Adeiladu pas pysgod, gan gynnwys ceuffosydd cysylltiedig, gwaith peirianneg, tirlunio a gwaith cysylltiedig. Rhaeadr y Bedol, Berwyn.<br><br>03/2024/0070<br>Adeiladu pas pysgod, gan gynnwys ceuffosydd cysylltiedig, gwaith peirianneg, tirlunio a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig). Rhaeadr y Bedol, Berwyn.<br><br>03/2024/0131<br>Gosod peiriant ATM a choler newydd. 38 Castle Street.<br><br>03/2024/0132<br>Arddangos arwyddion ynglŷn â pheiriant codi arian newydd a choler. 38 Castle Street.<br><br>03/2022/0368<br>Codi 5 uned ddiwydiannol ysgafn (Defnydd Dosbarth B2/B8), gosod | **Planning Applications.**<br>It was proposed, seconded, and resolved that no objections be raised in respect of the following application.<br>All agreed.<br>03/2024/0010<br>Erection of single storey extension to dwelling, a detached double garage, formation of hardstanding's, landscaping and associated works. River Meadow Cottage Llangollen Fechan.<br><br>03/2024/0069<br>Construction of fish pass including associated culverts, engineering operations, landscaping and associated works. Horseshoe Falls, Berwyn.<br><br>03/2024/0070<br>Construction of fish pass including associated culverts, engineering operations, landscaping and associated works (Listed Building Application) Horseshoe Falls, Berwyn.<br><br>03/2024/0131<br>Installation of replacement ATM and collar. 38 Castle Street.<br><br>03/2024/0132<br>Display of signage in relation to replacement ATM and collar. 38 Castle Street.<br><br>03/2022/0368<br>Erection of 5 light industrial units (Use Class B2/B8), installation of package treatment |

offer trin pecyn, gwneud maes parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig. Tir ar Fferm Cilmedw, Berwyn Street.

plant, formation of parking, landscaping and associated works. Land at Cilmedw Farm Berwyn Street.

03/2023/0932
Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig)
21 Regent Street.

03/2023/0932
Installation of air source heat pump and associated works (Listed Building Application)
21 Regent Street.

Cynigwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd gwrthwynebu'r cais canlynol.
03/2024/0102
Isrannu'r annedd bresennol i ffurfio un fflat ar y llawr gwaelod ac un fflat ar yr ail a'r trydydd llawr. Ceiriog Birch Hill.

It was proposed, seconded, and resolved to object to the following application.
03/2024/0102
Subdivision of existing dwelling to form one ground floor flat and one flat on the second and third floors. Ceiriog Birch Hill.

Ystyriodd Aelodau'r Cyngor y Dref y cais uchod gan farnu ei fod yn annerbyniol yn nhermau cynllunio gan ei fod yn groes i'r polisïau canlynol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2006 – 2021
Polisi RD 1 - Datblygiad cynaliadwy a dyluniad safonol gan nad yw'r cynigion yn darparu mynediad diogel a chyfleus i bobl anabl, cerddwyr, beicwyr, cerbydau a cherbydau brys ynghyd â digon o le parcio, gwasanaethau a man symud.
Polisi RD 3 - Estyniadau ac addasiadau i anheddau: byddai'r cynllun yn golygu gorddatblygu'r safle.

Members of the Town Council considered the above application and adjudged that it was unacceptable in planning terms as it is contrary to the following policies within the adopted Local Development Plan 2006 – 2021
Policy RD 1 - Sustainable development and good standard design as the proposals do not provide safe and convenient access for disabled people, pedestrians, cyclists, vehicles and emergency vehicles together with adequate parking, services and manoeuvring space.
Policy RD 3 – Extensions and alterations to dwellings: the proposal represents an over development of the site.

03/2024/0134
Codi estyniad deulawr i'r ochr ac estyniad unllawr yng nghefn yr annedd, addasiadau a gwaith cysylltiedig. Bryn Howell Cottage, Trevor.

03/2024/0134
Erection of a two-storey extension to side and a single-storey extension to rear of dwelling, alterations and associated works. Bryn Howell Cottage, Trevor.

Ystyriodd Aelodau'r Cyngor y Dref y cais uchod gan farnu ei fod yn annerbyniol yn nhermau cynllunio gan ei fod yn groes i'r polisïau canlynol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2006 – 2021.

Members of the Town Council considered the above application and adjudged that it was unacceptable in planning terms as it conflicts with the following policy within the adopted Local Development Plan 2006 – 2021.
Policy RD 3 in that the scale and form of the

| | | |
|---|---|---|
| | Polisi RD 3: sef bod graddfa a ffurf yr addasiad neu'r estyniad arfaethedig yn israddol i'r annedd wreiddiol, neu'r annedd fel yr oedd 20 mlynedd cyn i'r cais cynllunio i ymestyn y tŷ gael ei wneud; a byddai'r cynllun yn golygu gorddatblygu'r safle. | proposed alteration or extension is subordinate to the original dwelling, or the dwelling as it was 20 years before the planning application to extend the dwelling is made; and the proposal represents an over development of the site. |
| **C/105/24** | **Gohebiaeth cynllunio.**<br>Atodlen 1b: cyhoeddusrwydd ac ymgynghori: Gwesty'r Royal, Llangollen.<br>Ystyriodd yr Aelodau'r cais cyn cynllunio ac roeddent yn bryderus ynghylch colli gwelyau mewn gwestai a'r effaith bosibl ar economi twristiaeth leol, ond roeddent hefyd yn cydnabod y sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu'r sector lletygarwch ar ôl y pandemig.<br>Cynigiwyd, eiliwyd, a phenderfynwyd cytuno y gallai addasu rhan o'r gwesty yn fflatiau preswyl fod yn dderbyniol ar yr amod bod y datblygwyr yn gallu dangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw cadw'r gwelyau gwesty bellach yn ariannol hyfyw.<br>Roedd gan yr Aelodau bryderon hefyd am agweddau nad oeddent wedi'u cynnwys yn unrhyw un o'r dogfennau a oedd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad, - ynglŷn â darpariaeth parcio a'r diffyg cyfleusterau ar gyfer ailgylchu gwastraff domestig gyda dyfodiad y system Trolibocs ar draws Sir Ddinbych. Yr oeddynt o'r farn y dylid ystyried hyn.<br>Cytunodd pawb. | **Planning correspondence.**<br>Schedule 1b: publicity and consultation: The Royal Hotel, Llangollen.<br>Members considered the pre planning application and were concerned at the loss of hotel bed spaces and the potential effect on the local tourist economy, but equally recognised the difficult financial position facing the hospitality sector post pandemic.<br>It was proposed, seconded, and resolved to agree that the alteration of part of the hotel to residential apartments could be acceptable providing the developers can demonstrate to the Local Planning Authority that the retention of the hotel bed spaces is no longer financially viable.<br>Members also had concerns about aspects which were not covered in any of the documentation attached with this consultation in respect of parking provision and the lack of facilities to house domestic waste recycling with the advent of the Trolibocs system in across Denbighshire, which they felt needed to be addressed.<br>All agreed. |
| **C/106/23.** | **Rhan B Gwahardd y cyhoedd a'r Wasg.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r eitem agenda yn ymwneud â'r eitem ar daliadau cyfreithiol ar y sail y byddai datgelu hyn yn niweidiol i fudd | **Part B Exclusion of Public and Press.**<br>It was proposed, seconded and resolved to exclude the press and public on agenda item relating to the agenda item on legal fees on the basis that disclosure thereof would be prejudicial to the public interest by reason of the confidential nature of the business to be |

| | Cymraeg | English |
|---|---|---|
| | y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.<br>Cytunodd pawb. | transacted.<br>All agreed. |
| **C/107/23.** | **Cyfleuster gwastraff masnach.**<br>Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd i ddyfarnu'r contract ar sail y pris a dderbyniwyd gan y Brodyr Davies o £9,428.45 (heb gynnwys TAW), yn unol â'r fanyleb a nodir yn y gwahoddiad i ddyfynbris a chyfarwyddiadau.<br>Cytunodd pawb. | **Trade waste store.**<br>It was proposed, seconded and agreed to award the contract on the basis of the price received from Davies Brothers of £9,428.45 (Ex VAT) in accordance with the specification set out in the invitation to quote and instructions<br>All agreed. |

**Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 7.11 yh.**

**There being no further items the meeting closed at 7.11 pm.**

Llofnodwyd / Signed ______________________ Dyddiedig / Dated 21.05.2024